Living Levels Events



# Long walks
# Tall tales
# Big skies

July - December **2019**

Discover
**Gwent Levels**

CRONFA
**DREFTADAETH**
**HERITAGE**
FUND

www.livinglevels.org.uk

# Long walks, tall tales, big skies

Living Levels Events
July - December 2019

Join us this year for a series of events celebrating the magnificent Gwent Levels. We hope these will encourage you to get out and about and discover this glorious landscape.

There are charges for some of our events but others are free. Where booking is required it will say so on the event description. Information on how to book each event will be given on the events calendar on our website. If booking is not required you can turn up on the day.

With 2019 being the Visit Wales 'Year of Discovery', look out for themed events celebrating our unique coastline. From fun family activities to history discovery days, from illuminating talks to theatrical events – we hope there will be something for everyone to enjoy.

Due to changeable weather in the Gwent Levels, please ensure that you bring appropriate footwear and waterproof clothing for all walks. Don't forget to bring drinks and snacks/suitable clothing/sun cream/insect repellent as appropriate for all outdoor activities.

Please note that other events may be organised after this brochure is distributed, likewise some events may be subject to cancellation, so keep checking our events calendar on the website for the most up to date information. We will also be popping up at other events in and around the Levels - so look out for us!

**For further details, to make event bookings and for updates please check the website www.livinglevels.co.uk.**

## The Gwent Levels

The Gwent Levels are an iconic, estuarine landscape of international significance. Reclaimed from the sea in Roman times, the Gwent Levels are a network of fertile fields and historic watercourses, known locally as reens. This special landscape of high skies and low horizons is one of the finest examples of a 'natural' landscape hand-crafted by people in Europe; and one of the largest tracts of bio-diverse wet grassland left in the UK.

## The Partnership

The Living Levels Partnership was formed in 2014 to promote and protect the Gwent Levels. We are a cross-organisational partnership, spanning administrative boundaries, working closely with communities and other stakeholders towards the sustainable management of this landscape.

## Contact us

☎ 01633 292982
✉ info@livinglevels.org.uk
Twitter: ourlivinglevels
Facebook: Our Living Levels
YouTube: Our Living Levels TV

## Bishton Exhibition

MONDAY 1 JULY

From 1st July
Daily

Visit the wonderful St Cadwaladr's Church to discover the history of the village of Bishton, from ancient Celtic Kings and the Welsh Dragon, to the coming of the railways and steelworks.

St Cadwaladr's Church, Bishton
**FREE**

DROP-IN

## Learn about the Levels at Rogiet Countryside Park

WEDNESDAY 3 JULY

Wednesday, 3rd July
10:00am - 12:00pm

Lots of games and activities to find out more about the wonderful wildlife, heritage and history of this area of the Gwent Levels. Why not bring a picnic to enjoy after the event? Children to be accompanied by an adult. Assistance dogs only please.

Rogiet Countryside Park
**FREE**

DROP-IN

## Magor after dark...

THURSDAY 4 JULY

Thursday, 4th July
9.30pm - Midnight

Venturing out at dusk to hopefully glimpse the mysterious Glow-worm (not a worm at all but a beetle that can glow in the dark!).

Magor Marsh Nature Reserve
Gwent Wildlife £10/£15 non-member

BOOKING ESSENTIAL

## National Meadow Day and BioBlitz

SATURDAY 6 JULY

Saturday, 6th July
11:00am - 3:00pm

Explore and record the wildlife and plant life in the grounds of the fantastic Tredegar House. Join us for a day of intense surveying as we find out how many different flora and fauna have made the parkland their home. There are also activities in the walled gardens.

Tredegar House (kiosk)
**FREE** - House admission charges apply

DROP-IN


Water vole (Ben Andrews. rspb-images.com)

## Life on Marsh Festival!

SATURDAY 13 JULY

Saturday, 13th July
12:00pm - 6:00pm

A wildlife and heritage mini-festival to celebrate the wonder of the Gwent Levels since the dawn of time! Spend a long afternoon relaxing against a backdrop of stunning, natural surroundings, enjoying local music, drama, storytelling and dance acts.

Magor Marsh Nature Reserve
See website for details

DROP-IN

## Dragonfly and Damselfly Identification

TUESDAY 16 JULY

Tuesday, 16th July
10:00am - 2:00pm

Ever wanted to know the difference between dragonflies and damselflies or get your eye in to learn the difference between your hawkers and your chasers? Chris Hatch will start you off in the classroom and then take you outside at Magor Marsh to discover these wonderful 'flying dragons'!

Magor Marsh Nature Reserve
Gwent Wildlife £8/£12 non-member

BOOKING ESSENTIAL



Hairy dragonfly (Chris Harris)

## Wild Watch Training Event

THURSDAY 18 JULY

Thursday, 18th July
10:30am - 4:00pm

Would you love to learn more about our Living Levels' wildlife? This one-day training event will help you gain the confidence, skills and knowledge to help survey and record some of our iconic wildlife species found on the Gwent Levels. Book early as places are limited!

The Beacon Centre, St. Mellons
**FREE**

BOOKING ESSENTIAL

## Hands-on Archaeology and Heritage, Redwick

TUESDAY 30 JULY

30th July – 4th August
Daily 9:30am – 4:30pm

Join 'DigVentures' providing hands-on heritage sessions including archaeological excavation, historic building recording and archaeological survey of the landscape and foreshore, exploring the landscape for clues about the past.

Check website for details
**FREE**

BOOKING ESSENTIAL



Foreshore archaeology group (Chris Harris)

## 'Life on the Levels' at St Brides

SATURDAY 3 AUGUST

Saturday, 3rd August
11.00am-4.00pm

We have been recording fascinating oral histories from the Caldicot and Wentlooge moors. Join us to share what we've learned so far, alongside photographs, exhibits and performance too! If you would like to record a memory, a story, or share a photo for posterity, then bring them along.

St. Bridget's Church
**FREE**

DROP-IN

## Dino Dig!

MONDAY 12 AUGUST

12th – 15th August, daily
10.30am - 12pm, or 2.00 - 3.30pm

Are you ready to get a little messy and be a wild explorer of the past? Learn about the amazing prehistoric creatures of the Gwent Levels. Create a miniature mud hut village and make footprints in the mud. Make your own clay crafts and cave paintings as a reminder of your fascinating findings!

RSPB Newport Wetlands (£3 parking)
RSPB £4.40/£5.50 non-member

DROP-IN

## Toddler Dino Dig!

FRIDAY 16 AUGUST

Friday, 16th August
10.30 – 11.45am, or 2 – 3.15pm

Are you ready to get a little messy? If so join our toddler 'Dino Dig', finding bones buried in the sand, and making mud footprints, just like the bronze age toddlers of the Gwent Levels. Along with songs and a story this action-packed session will keep your toddlers active and amazed!

RSPB Newport Wetlands (£3 parking)
RSPB £4.40/£5.50 non-member

BOOKING ESSENTIAL

## Family Walk to Hendre Lake

TUESDAY 20 AUGUST

Tuesday, 20th August
11am – 3.00pm

Join us for a family walk discovering the wonderful heritage and wildlife of the Gwent Levels with the communities of St. Mellons and Trowbridge. There will be activities and a 2.2 mile guided walk (2.00pm) to find out more about this unique landscape. Children to be accompanied by an adult.

St. Mellons Hub, Cardiff
FREE

DROP-IN

## View from a Bridge walk

THURSDAY 22 AUGUST

Thursday, 22nd August
10.30am

Experience the Gwent Levels from some of its highest points. Through the reedbeds of Newport Wetlands, our 5-mile walk takes in the East Usk Lighthouse, St. Mary's Church in Nash, Newport Docks and the Newport Transporter Bridge (weather permitting) for a spectacular views of the Levels!

Newport Wetlands (£3 parking)
FREE

BOOKING ESSENTIAL


Poplar hawk-moth (Chris Harris)

## Bat and Moth Walk

SATURDAY 24 AUGUST

Saturday, 24th August
7.00pm – 11.00pm

Prepare to be amazed at how many bats we'll find after hours. We'll find out lots about bats and moths whilst we enjoy toasted marshmallows, s'mores and hot chocolate around the campfire before heading off into the night with our bat detectors to see what we can find. Don't forget to bring your torch!

RSPB Newport Wetlands (£3 parking)
RSPB £8/£10 non-member

BOOKING ESSENTIAL

## Discover Local History - Newport

THURSDAY **29** AUGUST

Thursday, 29th August
10:30am - 12:00pm

A real must for local history buffs! A fascinating workshop focusing on the records for Newport held by Gwent Archives. Part of their 'Discover Local History' series, there will be a rare opportunity to view and handle some of the records, as well as an introduction to the Archives' Research Room...

**Gwent Archives, Ebbw Vale**
**£5**

**BOOKING ESSENTIAL**



1830 Commissioner of Sewers map of Redwick

## Bat and Moth Walk

FRIDAY **30** AUGUST

Friday, 30th August
7pm – 11pm

Another chance to be amazed at how many bats we'll find after hours at Newport Wetlands. We'll find out lots about bats and moths whilst we enjoy toasted marshmallows, s'mores and hot chocolate around the campfire before heading off into the night with our bat detectors. Don't forget to bring your torch!

**RSPB Newport Wetlands (£3 parking)**
**RSPB £8/£10 non-member**

**BOOKING ESSENTIAL**

## Bat Walk at Hendre Lake

SATURDAY **31** AUGUST

Saturday, 31st August
7.45pm start

Bring a torch and with the help of bat detectors join the Community Park Rangers to discover the bats feeding at the lakeside. Sensible clothing and footwear essential.

**Hendre Lake**
**FREE**

**DROP-IN**


Bell ringing (Gavin Jones)

## Ding dong! Have a go at bell ringing

SATURDAY **14** SEPTEMBER

Saturday, 14th September
10.30am – 3.30pm

Ever wonder what goes on up in the bell tower? Come along to St Mary's in Nash to find out! Join us for our first bellringing taster session and take part in demonstrations, talks, and have a go for yourself! Get involved and immerse yourself in the history of the Gwent Levels. Comfortable clothing required.

**St. Mary's Church, Nash**
**FREE**

**BOOKING ESSENTIAL**

## Pillgwenlly Past and Present Walk

WEDNESDAY **25** SEPTEMBER

Wednesday, 25th September
10.00am – 12.00pm

Come and explore how Pillgwenlly used to be in days gone by on a Gwent Archives guided tour (approx. 1.5miles). Using archival photographs, maps, plans and other documents, we will reveal Pillgwenlly's past and its development.

**Pill Mill**
**£2**

**BOOKING ESSENTIAL**



Roman soldier (Chris Harris)

## Rugged Romans & Muddy Monks - Levels History Day

SATURDAY **28** SEPTEMBER

Saturday, 28th September
11:00am - 3:00pm

Exhibits, re-enactors and activities will bring the history and archaeology of the Gwent Levels to life at this event for all the family! Discover our stone-age ancestors, Roman soldiers and fascinating artefacts in the grounds of Tredegar House. Oh, and did we mention some gate-crashing Dinosaurs?

**Tredegar House**
**See website for details**

**DROP-IN**



(Derek Thow)

## Big Skies at Caldicot Castle!

SATURDAY **5** OCTOBER

Saturday, 5th October
Check website for details

Tin Shed Theatre Co. present another community, outdoor performance event celebrating the Gwent Levels, that will be fun for all the family! They will be sure to transform and inhabit the castle in an exciting and spellbinding way with live performances and storytelling as dusk arrives over Caldicot Castle...

**Caldicot Castle & Country Park**
**FREE**

**BOOKING ESSENTIAL**

## Make sense of Maps! (Part 1)

TUESDAY 8 OCTOBER

Tuesday, 8th October
1:00pm - 4:00pm

Back by popular demand! An introduction to maps and map-work (focusing on the OS 1:25000 scale). The course is aimed at encouraging the use of maps for walking in the countryside and gaining confidence in all aspects of map interpretation and use. No previous knowledge required!

**Magor Marsh Nature Reserve**
**FREE**

**BOOKING ESSENTIAL**

## Recapturing the historic landscape

THURSDAY 10 OCTOBER

Thursday, 10th October
11.00am - 12.30pm

After months of studying old manuscripts and maps, the Living Levels RATS (Research and Transcription Service) want to share their discoveries with you! They are giving a series of short illustrated talks at Glamorgan Archives on the theme of 'recapturing the historic landscape' of the Gwent Levels.

**Glamorgan Archives, Cardiff**
**FREE**

**DROP-IN**

## 'Life on the Levels' at Nash

SATURDAY 12 OCTOBER

Saturday, 12th October
11.00am - 4.00pm

We have been recording fascinating oral histories from the Caldicot and Wentlooge moors. Join us to share what we've learned so far, alongside photographs, exhibits and performance too! If you would like to record a memory, a story, or share a photo for posterity, then bring them along.

**Nash Village Hall**
**FREE**

**DROP-IN**

## 'Life on the Levels' at Magor

SATURDAY 26 OCTOBER

Saturday, 26th October
11.00am - 4.00pm

We have been recording fascinating oral histories from the Caldicot and Wentlooge moors. Join us to share what we've learned so far, alongside photographs, exhibits and performance too! If you would like to record a memory, a story, or share a photo for posterity, then bring them along.

**Magor Church Hall**
**FREE**

**DROP-IN**



Marshy Monday (David Sankson)

## Marshy Monday 'Autumnal Antics'!

MONDAY 28 OCTOBER

Monday, 28th October
1.00pm – 4.00pm

A fun afternoon for families at Magor Marsh with a wildlife trail, pond dipping, bird watching and autumnal crafts using natural materials. Children must be accompanied by an adult.

**Magor Marsh Nature Reserve**
**£2 per child, adults FREE**

**DROP-IN**


(Joanne Burgess)

## Tree-mendous fun at Rogiet Countryside Park!

WEDNESDAY 30 OCTOBER

Wednesday, 30th October
10.00am to 12 noon

Discover more about the folklore of trees, their fruit, autumn leaves and more on this fun, family activity. Lots of games and activities to help you discover more about the wonderful wildlife, heritage and history of this little gem on the Gwent Levels! Children to be accompanied by an adult.

**Rogiet Countryside Park**
**FREE**

DROP-IN

## 'Life on the Levels' at Rumney

SATURDAY 2 NOVEMBER

Saturday, 2nd November
11.00am - 4.00pm

We have been recording fascinating oral histories from the Caldicot and Wentlooge moors. Join us to share what we've learned so far, alongside photographs, exhibits and performance too! If you would like to record a memory, a story, or share a photo for posterity, then bring them along.

**Rumney Chapel**
**FREE**

DROP-IN

## Tools to improve Map Navigation (Part 2)

TUESDAY 5 NOVEMBER

Tuesday, 5th November
1:00pm - 4:00pm

Following on from the 'Make sense of maps' course, we will be looking at techniques and tools that can be used to define your position and increase the accuracy of your route finding. Although this follows on from a previous course it is open to anyone with an interest in maps and map reading.

**Magor Marsh Nature Reserve**
**FREE**

BOOKING ESSENTIAL

## Stories and Songs at the Winter Fireside!

FRIDAY 13 DECEMBER

Friday, 13th December
From 7.30pm

As the evenings draw in, storyteller Christine Watkins and musician Guto Dafis invite you to an evening of tall tales and musical merriment from the Gwent Levels in Winter, in the cosy surrounds of the Farmer's Arms in Goldcliff.

**Farmer's Arms, Goldcliff**
**FREE**

DROP-IN


Mistletoe (Chris Harris)

# Venues

**1** Newport Wetlands

**2** Magor Marsh

**3** The Farmers Arms, Goldcliff

**4** Hendre Lake

**5** Rogiet Country Park

**6** Caldicot Castle

**7** Tredegar House

**8** Nash Village Hall St. Mary's Rd, Nash, NP18 2DD

**9** St. Mellons Hub, Crickhowell Road, St Mellons

**10** Gwent Archives, Steelworks Road, Ebbw Vale, NP23 6AA

**11** Glamorgan Archives, Clos Parc Morgannwg Leckwith, Cardiff, CF11 8AW

**12** Pill Mill, Courtybella Terrace, Newport, NP20 2GH

**13** Redwick village




**14** St. Mary's Church, St. Mary's Rd, Nash, NP18 2DD

**15** St. Bridget's Church, St Brides

**16** Rumney Chapel, Brachdy Rd, Cardiff, CF3 3BG

**17** Magor Church Hall, Sycamore Terrace, Magor, NP26 3EF

**18** St. Cadwaladr's Church, Bishton

**19** Beacon Centre, St Mellons




Am ragor o fanylion, i archebu lle mewn digwyddiad ac am y newyddion diweddaraf ewch i'n gwefan:
**www.lefelaubyw.co.uk/**

For further details, to make event bookings and for updates please check the website:
**www.livinglevels.co.uk.**



Curlew (Mike Langham, rspb-images.com)



(Joanne Burgess)

## Hwyl Ymhlith y Coed!

DYDD MERCHER 30 HYDREF

Dydd Mercher Hydref 30ain
10:00yb - 12.00yp

Fe fydd llawer o gemau a gweithgareddau i'ch helpu i ddarganfod mwy am fywyd gwyllt, treftadaeth a hanes y safle hyfryd hwn ar Wastadeddau Gwent! Mae'n rhaid i blant fod yng nghwmni oedolyn. Cŵn cymorth yn unig os gwelwch yn dda.

**Parc Gwledig Llanfihangel Rhosied**
**AM DDIM**

SESIWN ALW-HEIBIO

## Bywyd ar y Gwastadeddau yn Nhredelerch

DYDD SADWRN 2 TACHWEDD

Dydd Sadwrn Tachwedd 2il
11.00yb - 4.00yp

Rydym wedi cofnodi hanesion llafar hynod o rostiroedd Cil-y-coed a Gwynllŵg. Ymunwch â ni i rannu'r hyn rydym wedi'i ddysgu hyd yn hyn, ochr yn ochr â ffotograffau, arddangosiadau a pherfformiad hefyd! Os hoffech chi gofnodi atgof, stori, neu rannu llun ar gyfer y dyfodol, yna dewch â nhw draw.

**Capel Tredelerch**
**AM DDIM**

SESIWN ALW-HEIBIO

## Offer i Wella Llywio'ch Hun â Map (Rhan 2)

DYDD MAWRTH 5 TACHWEDD

Dydd Mawrth Tachwedd 5ed
1:00yp - 4:00yp

Yn dilyn cwrs 'Gwneud Pen a Chynffon o Fapiau', byddwn yn edrych ar dechnegau ac offer y gellir eu defnyddio i bennu eich lleoliad a gwella cywirdeb eich llwybr. Byddai diddordeb eisoes mewn mapiau a gwaith map yn helpu gyda dealltwriaeth o'r cwrs hwn.

**Gwarchodfa Natur Cors Magwyr**
**AM DDIM**

RHAID ARCHEBU LLE

## Straeon a Chaneuon Wrth y Pentan!

DYDD GWENER 13 TACHWEDD

Dydd Gwener Tachwedd 13eg
7.30yh

Wrth iddi dywyllu'n gynt mae'r storïwr Christine Watkins a'r cerddor Guto Dafis yn eich gwahodd i noson o hanesion hynod a cherddoriaeth hwyliog o Wastadeddau Gwent yn y Gaeaf, yn nhafarn glyd y Farmer's Arms yn Allteuryn.

**Farmer's Arms**
**AM DDIM**

SESIWN ALW-HEIBIO



(Chris Harris)

## Gwneud Pen a Chynffon o Fapiau! (Rhan 1)

DYDD MAWRTH **8** HYDREF

Dydd Mawrth Hydref 8fed
1:00yp - 4:00yp

Yn ôl ar gais y cyhoedd! Cyflwyniad i fapiau a gwaith map (gan ganolbwyntio ar yr Arolwg Ordnans graddfa 1: 25000). Nod y cwrs yw annog defnyddio mapiau ar gyfer cerdded yng nghefn gwlad a magu hyder ym mhob agwedd ar ddehongli a defnyddio mapiau. Nid oes angen unrhyw wybodaeth flaenorol!

Gwarchodfa Natur Cors Magwyr
**AM DDIM**

**RHAID ARCHEBU LLE**

## Ailafael yn y Dirwedd Hanesyddol

DYDD IAU **10** HYDREF

Dydd Iau Hydref 10fed
11:00yb - 12:30yp

Yn dilyn sawl mis o astudio hen lawysgrifau a mapiau, mae gwirfoddolwyr ymchwil hanes Lefelau Byw eisiau rhannu'r hyn maen nhw wedi'i ddarganfod gyda chi! Yn cael eu hadabod fel RATS, maent yn cynnal cyfres o sgyrsiau byr yn Archifau Morgannwg ar y thema o 'ailafael yn nhirwedd hanesyddol Gwastadeddau Gwent'.

Archifau Morgannwg, Caerdydd
**AM DDIM**

**SESIWN ALW-HEIBIO**

## Bywyd ar y Gwastadeddau yn Nhrefonnen

DYDD SADWRN **12** HYDREF

Dydd Sadwrn Hydref 12fed
11.00yb – 4.00yp

Rydym wedi cofnodi hanesion llafar hynod o rostiroedd Cil-y-coed a Gwynllŵg. Ymunwch â ni i rannu'r hyn rydym wedi'i ddysgu hyd yn hyn, ochr yn ochr â ffotograffau, arddangosiadau a pherfformiad hefyd! Os hoffech chi gofnodi atgof, stori, neu rannu llun ar gyfer y dyfodol, yna dewch â nhw draw.

Neuadd Bentref Trefonnen
**AM DDIM**

**SESIWN ALW-HEIBIO**

## Bywyd ar y Gwastadeddau ym Magwyr

DYDD SADWRN **26** HYDREF

Dydd Sadwrn Hydref 26ain
11.00yb – 4.00yp

Rydym wedi cofnodi hanesion llafar hynod o rostiroedd Cil-y-coed a Gwynllŵg. Ymunwch â ni i rannu'r hyn rydym wedi'i ddysgu hyd yn hyn, ochr yn ochr â ffotograffau, arddangosiadau a pherfformiad hefyd! Os hoffech chi gofnodi atgof, stori, neu rannu llun ar gyfer y dyfodol, yna dewch â nhw draw.

Neuadd yr Eglwys, Magwyr
**AM DDIM**

**SESIWN ALW-HEIBIO**



Marshy Monday (David Sankson)

## Dydd Llun Lleidiog 'Halibalŵ Hydrefol'

DYDD LLUN **28** HYDREF

Dydd Llun Hydref 28ain
1.00yp – 4.00yp

Prynhawn hwyliog i deuluoedd yng Nghors Magwyr gyda llwybr bywyd gwyllt, rhwydo pyllau, gwylio adar a chreu crefftau hydrefol gyda deunyddiau naturiol. Rhaid i blant fod yng nghwmni oedolyn.

Gwarchodfa Natur Cors Magwyr
**£2 y plentyn, oedolion am ddim**

**SESIWN ALW-HEIBIO**

## Pillgwenlli yn y Gorffennol a'r Presennol

DYDD MERCHER **25** MEDI

Dydd Mercher Medi 25ain
10:00yb – 12:00yp

Dewch i weld sut le yr oedd Pillgwenlli slawer dydd ar daith dywysedig (tua 1.5 milltir) gydag Archifau Gwent. Gan ddefnyddio ffotograffau, mapiau, cynlluniau a dogfennau eraill o'r archif byddwn yn datgelu gorffennol a datblygiad Pillgwenlli.

**Canolfan Mileniwm Pillgwenlli**
**£2**

**RHAID ARCHEBU LLE**

## Rhufeiniaid Rhyfeddol a Mynachod Mwdlyd - Hanes y Gwastadeddau!

DYDD SADWRN **28** MEDI

Dydd Sadwrn Medi 28ain
11:00yb - 3:00yp

Bydd arddangosiadau, actorion a gweithgareddau yn dod â hanes ac archeoleg Gwastadeddau Gwent yn fyw yn y digwyddiad hwn i'r teulu cyfan! Darganfyddwch ein hynafiaid o Oes y Cerrig, y milwyr Rhufeinig ac arteffactau diddorol ar dir hanesyddol Tŷ Tredegar. O, a bydd ambell i ddeinosor yn galw heibio!

**Tŷ Tredegar**
**Gweler y wefan am fanylion**

**SESIWN ALW-HEIBIO**



Roman soldier (Chris Harris)



(Derek Thow)

## Awyr Eang yng Nghastell Cîl-y-coed!

DYDD SADWRN **5** HYDREF

Dydd Sadwrn, Hydref 5ed
Gweler y wefan am fanylion

Mae Cwmni Theatr Tin Shed Co. yn cyflwyno perfformiad awyr agored cymunedol arall yn dathlu Gwastadeddau Gwent, a fydd yn hwyl i'r teulu oll! Byddant yn sicr o greu noson gyffrous a chyfareddol gyda pherfformiadau byw ac wrth adrodd straeon wrth iddi nosi yng Gastell Cîl-y-coed.

**Castell a Pharc Gwledig Cîl-y-coed**
**AM DDIM**

**RHAID ARCHEBU LLE**

## Darganfod Hanes Lleol - Casnewydd

DYDD IAU **29** AWST

Dydd Iau Awst 29ain
10:30yb - 12:00yp

Digwyddiad angenrheidiol i haneswyr lleol selog! Gweithdy diddorol yn canolbwyntio ar gofnodion Casnewydd a gedwir gan Archifau Gwent. Fel rhan o'u cyfres 'Darganfod Hanes Lleol', bydd cyfle prin i weld a thrin rhai o'r cofnodion, yn ogystal â chyflwyniad i Ystafell Ymchwil yr Archifau...

**Archifau Gwent, Glyn Ebwy**
**£5**

**RHAID ARCHEBU LLE**



1830 Commissioner of Sewers map of Redwick

## Taith Ystlumod a Gwyfynod

DYDD GWENER **30** AWST

Dydd Gwener Awst 30ain
7.00yh – 11.00yh

Cyfle arall i gael eich rhyfeddu gan faint o ystlumod sydd i'w gweld gyda'r hwyr yng Ngwlyptiroedd Casnewydd. Byddwn yn dysgu am ystlumod a gwyfynod wrth i ni fwynhau malws melys wedi'u tostio, s'more a siocled poeth o amgylch y tân cyn mynd am dro gyda'n synwyryddion ystlumod.

**RSPB Gwlyptiroedd Casnewydd (£3 parcio)**
**Aelodau'r RSPB £4.40 / £5.50 i bawb arall**

**RHAID ARCHEBU LLE**

## Taith Gerdded Ystlumod yn Llyn yr Hendre

DYDD SADWRN **31** AWST

Dydd Sadwrn Awst 31ain
Cychwyn am 7.45yh

Dewch â thortsh a, gyda chymorth synwyryddion ystlumod, ymunwch â Cheidwaid y Parciau Cymunedol i ddarganfod yr ystlumod sy'n bwydo ger y llyn. Mae gwisgo dillad ac esgidiau addas yn hanfodol.

**Llyn yr Hendre**
**AM DDIM**

**SESIWN ALW-HEIBIO**


Bell ringing (Gavin Jones)

## Ding Dong - rhowch gynnig ar ganu clychau!

DYDD SADWRN **14** MEDI

Dydd Sadwrn Medi 14eg
10:30yb – 3:30yp

Ydych chi erioed wedi meddwl tybed beth sy'n digwydd yn nhŵr y gloch? Dewch draw i Eglwys y Santes Fair yn Nhrefonnen i gael gwybod! Ymunwch â ni am flas ar ganu clychau, cymryd rhan mewn arddangosiadau a sgyrsiau, a rhowch gynnig ar ganu cloch eich hun!

**Eglwys Santes Fair, Trefonnen**
**AM DDIM**

**RHAID ARCHEBU LLE**

## Cloddio Cynhanesyddol!

DYDD LLUN **12** AWST

12fed - 15fed Awst, dyddiol
10.30yb - 12yp, neu 2yp - 3.30yp

Ydych chi'n barod i drochi'ch dwylo a bod yn fforiwr gwyllt o'r gorffennol? Dysgwch am greaduriaid rhyfeddol cynhanesyddol y Gwastadeddau. Crëwch bentref bychan o gytiau mwd a gadewch olion traed yn y mwd. Crëwch grefftau clai a phaentiadau ogofâu i'ch atgoffa o'ch canfyddiadau diddorol!

RSPB Gwlyptiroedd Casnewydd (£3 parcio)
Aelodau'r RSPB £4.40 / £5.50 i bawb arall

RHAID ARCHEBU LLE

## Cloddio Cynhanesyddol i Blant Bach

DYDD GWENER **16** AWST

Dydd Gwener Awst 16eg
10.30 – 11.45yb, neu 2yp - 3.15yp

Ymunwch â'n digwyddiad Cloddio Cynhanesyddol i Blant Bach i ddod o hyd i esgyrn wedi'u claddu yn y tywod a gadael ôl traed yn y mwd, yn union fel plant bach yr Oes Efydd ar Wastadeddau Gwent. Ynghyd â chaneuon a stori bydd y sesiwn hon yn rhyfeddu eich plant bach a'u cadw yn brysur!

RSPB Gwlyptiroedd Casnewydd (£3 parcio)
Aelodau'r RSPB £4.40 / £5.50 i bawb arall

RHAID ARCHEBU LLE

## Taith Gerdded i'r Teulu i Lyn yr Hendre

DYDD MAWRTH **20** AWST

Dydd Mawrth Awst 20fed
11.00yb – 3.00yp

Ymunwch â ni am daith gerdded gyda chymunedau Llaneirwg a Trowbridge i ddarganfod treftadaeth a bywyd gwyllt rhyfeddol Gwastadeddau Gwent. Bydd gweithgareddau a thaith dywysedig 2.2 milltir (2.00yp) o hyd i ddarganfod mwy am y dirwedd unigryw hon. Rhaid i blant fod yng nghwmni oedolyn.

Hyb Llaneirwg, Caerdydd
AM DDIM

SESIWN ALW-HEIBIO

## Golygfeydd o'r Gwastadeddau

DYDD IAU **22** AWST

Dydd Iau Awst 22ain
10.30yb

Trwy welyau cyrs Gwlyptiroedd Casnewydd, mae ein taith 5 milltir yn cynnwys Goleudy Dwyrain Wysg, Eglwys y Santes Fair yn Nhrefonnen a Dociau Casnewydd cyn i ni ddringo Pont Gludo Casnewydd (os yw'r tywydd yn caniatáu) ar gyfer golygfeydd ysblennydd o'r Wysg, Casnewydd a'r Gwastadeddau.

RSPB Gwlyptiroedd Casnewydd (£3 parcio)
AM DDIM

RHAID ARCHEBU LLE



Poplar hawk-moth (Chris Harris)

## Taith Ystlumod a Gwyfynod

DYDD SADWRN **24** AWST

Dydd Sadwrn Awst 24ain
7.00yh – 11.00yh

Fe synnwch chi gymaint o ystlumod sydd i'w gweld yma gyda'r hwyr. Byddwn yn dysgu am ystlumod a gwyfynod wrth i ni fwynhau malws melys wedi'u tostio, s'more a siocled poeth o amgylch y tân cyn mynd am dro gyda'n synwyryddion ystlumod. Peidiwch ag anghofio dod â'ch fflach lamp!

RSPB Gwlyptiroedd Casnewydd (£3 parcio)
Aelodau'r RSPB £8 / £10 i bawb arall

RHAID ARCHEBU LLE

## Adnabod Gweision y Neidr a Mursennod

DYDD MAWRTH 16 GORFFENNAF

Dydd Mawrth Gorffennaf 16eg
10:00yb - 2:00yp

Ydych chi eisiau gwybod y gwahaniaeth rhwng gweision y neidr a mursennod neu hyd yn oed weision y neidr tindrom a rhai torchog? Bydd Chris Hatch yn cychwyn yn yr ystafell ddosbarth ac yna'n mynd â chi y tu allan i Gors Magwyr i ddarganfod y creaduriaid hyfryd hyn!

Gwarchodfa Natur Cors Magwyr
Natur Gwent £8/£12 pawb arall

RHAID ARCHEBU LLE



Hairy dragonfly (Chris Harris)

## Diwrnod Hyfforddi Gwylio Gwyllt

DYDD IAU 18 GORFFENNAF

Dydd Iau Gorffennaf 18fed
10:30yb - 4:00yp

Hoffech chi ddysgu mwy am fywyd gwyllt ein Lefelau Byw? Bydd y digwyddiad hyfforddi undydd hwn yn eich helpu i fagu'r hyder, y sgiliau a'r wybodaeth i'ch helpu i arolygu a chofnodi'r bywyd gwyllt eiconig sy'n byw ar Wastadeddau Gwent. Archebwch eich lle, mae nifer y lleoedd yn gyfyngedig!

Y Goleufan, Llaneirwg
AM DDIM

RHAID ARCHEBU LLE

## Profiad Ymarferol o Archaeoleg a Threftadaeth

DYDD MAWRTH 30 GORFFENNAF

Gorffennaf 30ain – Awst 4ydd
Dyddiol 9:30yb – 4:30yp

Ymunwch â 'DigVentures' am sesiynau treftadaeth ymarferol gan gynnwys cloddio archeolegol, cofnodi adeiladau hanesyddol ac arolwg archeolegol o'r dirwedd a'r blaendraeth, gan archwilio'r dirwedd am gliwiau am y gorffennol.

Ewch i'r wefan am fanylion
AM DDIM

RHAID ARCHEBU LLE



Foreshore archaeology group (Chris Harris)

## Bywyd ar y Gwastadeddau yn Sain Ffraid

DYDD SADWRN 3 AWST

Dydd Sadwrn Awst 3ydd
11.00yb - 4.00yp

Rydym wedi cofnodi hanesion llafar hynod o rostiroedd Cil-y-coed a Gwynllŵg. Ymunwch â ni i rannu'r hyn rydym wedi'i ddysgu hyd yn hyn, ochr yn ochr â ffotograffau, arddangosiadau a pherfformiad hefyd! Os hoffech chi gofnodi atgof, stori, neu rannu llun ar gyfer y dyfodol, yna dewch â nhw draw.

Eglwys St. Bridget
AM DDIM

SESIWN ALW-HEIBIO

## Arddangosfa Trefesgob

DYDD LLUN **1** GORFFENNAF

O Orffennaf 1af
Dyddiol

Dewch i ymweld ag Eglwys hyfryd St Cadwaladr i ddarganfod hanes pentref Trefesgob, o'r Brenhinoedd Celtaidd a'r Ddraig Goch, i ddyfodiad y rheilffyrdd a'r gwaith dur.

Eglwys St Cadwaladr's
**AM DDIM**

SESIWN ALW-HEIBIO

## Dysgu am y Gwastadededdau

DYDD MERCHER **3** GORFFENNAF

Dydd Mercher Gorffennaf 3ydd
10:00yb - 12:00yp

Nifer o gemau a gweithgareddau i ddarganfod mwy am fywyd gwyllt, treftadaeth a hanes gwych yr ardal hon o Wastadeddau Gwent. Beth am ddod â phicnic i'w fwynhau ar ôl y digwyddiad? Mae'n rhaid i blant fod yng nghwmni oedolyn. Cŵn cymorth yn unig os gwelwch yn dda.

Parc Gwledig Llanfihangel Rhosied
**AM DDIM**

SESIWN ALW-HEIBIO

## Magwyr liw nos...

DYDD IAU **4** GORFFENNAF

Dydd Iau Gorffennaf 4ydd
9.30yh - Canol nos

Mentro allan wrth iddi nosi yn y gobaith o weld Pry Tân (chwilen sy'n gallu creu golau yn y tywyllwch!).

Gwarchodfa Natur Cors Magwyr
Gwent Wildlife £10/£15 non-member

RHAID ARCHEBU LLE

## Diwrnod Cenedlaethol Gweirgloddiau a BioBlitz

DYDD SADWRN **6** GORFFENNAF

Dydd Sadwrn Gorffennaf 6ydd
11:00yb - 3:00yp

Gyda dirywiad syfrdanol gweirgloddiau ym Mhrydain, mae Tŷ Tredegar yn gweithio'n galed i warchod y cynefinoedd pwysig hyn. Ymunwch â ni am ddiwrnod o arolygu dwys i weld faint o wahanol flodau a chreaduriaid sy'n ymgartrefu ar y parcdir hwn. Mae yna hefyd weithgareddau yn y gerddi.

Tŷ Tredegar (ciosg)
**AM DDIM** - codir tâl mynediad i'r tŷ

SESIWN ALW-HEIBIO


Water vole (Ben Andrews. rspb-images.com)

## Gŵyl y Gors!

DYDD SADWRN **13** GORFFENNAF

Dydd Sadwrn, Gorffennaf 13eg
12:00yp - 6:00yh

Gŵyl fechan i ddathlu bywyd gwyllt a threftadaeth ryfeddol Gwastadeddau Gwent! Treuliwch brynhawn hir yn ymlacio mewn amgylchedd naturiol, trawiadol, yn mwynhau perfformiadau cerddorol, drama, adrodd straeon a dawns.

Gwarchodfa Natur Cors Magwyr
Gweler y wefan am fanylion

SESIWN ALW-HEIBIO

# Teithiau cerdded hir, straeon difyr, awyr eang

## Digwyddiadau Lefelau Byw Gorffennaf – Rhagfyr 2019

Ymunwch â ni am gyfres o ddigwyddiadau i ddathlu gogoniant Gwastadeddau Gwent. Y gobaith yw bydd y rhain yn eich annog i fwynhau ac i ddarganfod mwy am y dirwedd hyfryd hon.

Fe fydd tâl am rai o'n digwyddiadau ond mae eraill yn rhad ac am ddim. Pan fo angen archebu lle fe wnawn ni ddweud hynny yn y disgrifiad o'r digwyddiad, ac fe fydd gwybodaeth ar sut i archebu'ch lle i'w gweld ar galendr digwyddiadau ein gwefan. Os nad oes angen archebu lle, galwch heibio ar y diwrnod.

Gyda 2019 yn 'Flwyddyn Darganfod' Croeso Cymru mae nifer o'n digwyddiadau yn dilyn y thema hon ac yn dathlu ein harfordir unigryw. O weithgareddau teuluol hwyliog i ddiwrnodau hanes, o sgyrsiau diddorol i ddigwyddiadau theatrig - fe fydd rhywbeth at ddant pawb.

Oherwydd tywydd cyfnewidiol Gwastadeddau Gwent, gwnewch yn siŵr eich bod yn dod ag esgidiau a dillad priodol ar gyfer pob taith. Peidiwch ag anghofio dod â bwyd a diod / eli haul / hylif cadw pryfed draw fel sy'n briodol ar gyfer holl weithgareddau yn yr awyr agored.

Sylwch efallai y byddwn yn trefnu digwyddiadau eraill ar ôl i'r llyfryn hwn gael ei ddosbarthu. Yn yr un modd, gall rhai digwyddiadau gael eu canslo, felly cadwch lygad ar ein calendr digwyddiadau ar y wefan am y wybodaeth ddiweddaraf. Fe fyddwn ni hefyd yn ymweld â digwyddiadau eraill ar y Gwastadeddau - felly chwiliwch amdanom ni!

**Am ragor o fanylion, i archebu lle mewn digwyddiad ac am y newyddion diweddaraf ewch i'n gwefan www.lefelaubyw.co.uk/**

## Gwastadeddau Gwent

Mae Gwastadeddau Gwent yn dirwedd eiconig o bwys rhyngwladol. Hawliwyd y tir o'r môr yn ystod oes y Rhufeiniaid ac mae Gwastadeddau Gwent yn rhwydwaith o gaeau ffrwythlon a sianeli dŵr hanesyddol a elwir yn lleol yn 'reens'. Gyda'u gorwel isel a'i awyr eang mae'r tirlun arbennig hwn yn un o'r enghreifftiau gorau Ewrop o dirwedd 'naturiol' a luniwyd gan bobl; ac mae'n un o'r darnau mwyaf o laswelltir gwlyb bioamrywiol sydd dal ar ôl yn y DU.

## Y Bartneriaeth

Ffurfiwyd Partneriaeth y Lefelau Byw yn 2014 i hyrwyddo a gwarchod Gwastadeddau Gwent. Rydym yn bartneriaeth draws-sefydliadol sy'n gweithio ar draws ffiniau gweinyddol, gan gydweithio'n agos â chymunedau a rhanddeiliaid eraill tuag at reoli'r dirwedd hon mewn dull cynaliadwy.

## Cysylltu

☎ 01633 292982

✉ info@livinglevels.org.uk

Twitter: ourlivinglevels

Facebook: Our Living Levels

YouTube: Our Living Levels TV



Digwyddiadau Lefelau Byw

# Teithiau cerdded hir
# Straeon difyr
# Awyr eang

Gorffennaf - Rhagfyr **2019**

Darganfod

**Gwastadeddau Gwent**

CRONFA DREFTADAETH HERITAGE FUND

www.lefelaubyw.co.uk